

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol

Adroddiad yr Ymchwiliad i Wasanaethau
Cadeiriau Olwyn yng Nghymru

Mai 2010



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliadcymru.org

Mae copïau caled o'r ddogfen ar gael gan:

Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8617

Ffacs: 029 2089 8021

E-bost: health.wellbeing.localgovt.comm@wales.gsi.gov.uk

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2010

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol

Adroddiad yr Ymchwiliad i Wasanaethau
Cadeiriau Olwyn yng Nghymru

Mai 2010



Y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol

Caiff y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol ei benodi gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i ystyried ac adrodd ar faterion yn effeithio ar iechyd, llywodraeth leol a chyflenwi gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Yn arbennig, fel y nodir yn Rheol Sefydlog 12, gall y pwyllgor archwilio gwariant, gweinyddiaeth a pholisi llywodraeth Cymru a chyrrff cyhoeddus cysylltiol.

Pwerau

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 26 Mehefin 2007 fel un o bwyllgorau craffu'r Cynulliad Cenedlaethol. Mae ei bwerau wedi'u nodi yn Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn arbennig Rheol Sefydlog 12. Mae'r rhain ar gael ar www.cynulliadcymru.org

Aelodau'r pwyllgor

<i>Aelod Pwyllgor</i>	<i>Plaid</i>	<i>Etholaeth neu Ranbarth</i>
Darren Millar (Cadeirydd)	Plaid Geidwadol Cymru	Gorllewin Clwyd
Lorraine Barrett	Llafur	De Caerdydd a Phenarth
Peter Black	Democratiaid Rhyddfrydol Cymru	Gorllewin De Cymru
Andrew R T Davies	Plaid Geidwadol Cymru	Canol De Cymru
Irene James	Llafur	Islwyn
Ann Jones	Llafur	Dyffryn Clwyd
Helen Mary Jones	Plaid Cymru	Llanelli
Dai Lloyd	Plaid Cymru	Gorllewin De Cymru
Val Lloyd	Llafur	Dwyrain Abertawe

Cynnwys

Rhagair y Cadeirydd	5
Argymhellion y Pwyllgor	6
1. Cyflwyniad	9
2. Cefndir	11
3. Strwythur a Chyfeiriad Strategol Gwasanaethau Cadeiriau Olwyn	14
Strwythur y Gwasanaeth	14
Yr angen am Fanyleb Gwasanaeth	15
Cyfeiriad Strategol	17
Atebolrwydd	17
Targedau a Dangosyddion Perfformiad	18
Cyfathrebu	22
4. Gweithredu'r Gwasanaeth	25
Amseroedd Aros	25
Adnoddau	31
5. Gweithio gydag Eraill	34
Cydweithio	34
Cyllido ar y Cyd	38
Defnydd tymor byr	41
6. Diwallu Anghenion Ehangach Defnyddwyr	44
Diwallu Anghenion mewn modd Cyfannol	44
Atgyweirio	48
Adolygiadau	51
Hyfforddiant	52
7. Materion yn ymwneud â Chydraddoldeb	54
Atodiad A - Tystion	56
Atodiad B - Tystiolaeth ysgrifenedig	59
Atodiad C - Ymatebion i'r ymgynghoriad	63

Rhagair y Cadeirydd


I'r nifer o filoedd o ddefnyddwyr cadair olwyn yng Nghymru, mae cael y cyfarpar cywir ar yr amser cywir yn hanfodol. Mae pobl nad oes angen cadair olwyn arnynt yn cymryd y gallu i adael y tŷ, mynd i'r gwaith a chymdeithasu gyda ffrindiau yn ganiataol, ond ni all defnyddwyr cadair olwyn wneud y pethau hyn os nad oes ganddynt y cyfarpar addas. Mae cael y gadair olwyn gywir yn eu galluogi i fyw bywyd llawn ac i chwarae rhan weithredol yn y gymdeithas yng Nghymru. Dyna pam mae cael gwasanaeth cadeiriau olwyn yng Nghymru sy'n darparu ar gyfer ei ddefnyddwyr mor bwysig, a dyna pam y penderfynodd y Pwyllgor ymgymryd â'r ymchwiliad hwn.

Yn ystod yr ymchwiliad, clywsom rai sylwadau cadarnhaol ynglŷn â'r gwasanaeth cadeiriau olwyn, ond mae'n amlwg bod nifer o broblemau mewn sawl maes. Roedd beirniadaeth hefyd ynglŷn ag amseroedd aros hir, yn enwedig yn y Gogledd. Clywsom hefyd fod defnyddwyr gydag anghenion cymhleth, gan gynnwys plant, yn gorfod aros hiraf. Yn aml, y bobl hyn sy'n defnyddio'r gwasanaeth sydd fwyaf agored i niwed ac sy'n dioddef fwyaf os na allant gael y cyfarpar cywir ar yr amser cywir. Rhaid mynd i'r afael â hyn ar frys. Dylai defnyddwyr cadair olwyn allu cael gafael ar wasanaeth o safon uchel sy'n amserol pa bynnag oed ydynt a lle bynnag y maent yn byw yng Nghymru.

Rydym yn gwybod bod y gwasanaeth cadeiriau olwyn yn wynebu heriau anodd, gan gynnwys cynnydd mewn galw yn ystod cyfnod pan fydd adnoddau ariannol wedi'u cyfyngu. Mae'n hanfodol bod mesurau yn cael eu rhoi ar waith yn awr i wella'r gwasanaeth, i'w wneud yn fwy effeithlon, ac i sicrhau y gellir cynnal y gwelliannau hyn.

Yn yr adroddiad hwn, mae nifer o argymhellion sy'n cyffwrdd ar bob agwedd ar wasanaethau cadeiriau olwyn, gan gynnwys y cyfeiriad strategol; cyd-weithio gyda sefydliadau ac elusennau; monitro targedau a pherfformiad; gwaith atgyweirio a chynnal a chadw; ac adolygiadau. Rwyf yn hyderus y gall y rhain helpu'r gwasanaeth i ymateb i'r heriau y mae'n eu hwynebu ac i'w wella i sicrhau bod defnyddwyr cadair olwyn yng Nghymru yn cael y gwasanaeth y maent yn ei haeddu.

Ar ran y Pwyllgor, hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu at yr ymchwiliad hwn ac rwyf yn cymeradwyo'r adroddiad i'r Gweinidog dros lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Cynulliad Cenedlaethol.



Argymhellion y Pwyllgor

Mae argymhellion y Pwyllgor i Lywodraeth Cymru wedi'u rhestru isod, yn y drefn y meant yn ymddangos ynddi yn yr Adroddiad hwn. Trowch i dudalennau perthnasol yr adroddiad i weld y dystiolaeth ategol a'r casgliadau:

Argymhelliad 1. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n sicrhau bod manyleb gwasanaeth lawn, genedlaethol yn cael ei pharatoi, gan gynnwys manylion am ddull y gwasanaeth o gydweithio â sefydliadau eraill; cyllido ar y cyd â sefydliadau ac unigolion; a gwybodaeth am dargedau perfformiad a systemau monitro.
(Tudalen 16)

Argymhelliad 2. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru lunio cynllun strategol, i roi cyfeiriad i'r gwasanaeth dros y blynyddoedd nesaf. Dylid gwneud hyn ar y cyd â'r darparwyr gwasanaeth, defnyddwyr, rhanddeiliaid a phartïon eraill â diddordeb.
(Tudalen 17)

Argymhelliad 3. Rydym yn argymell y dylai'r cynllun strategol roi sylw i'r angen i integreiddio'r gwasanaeth yn well â gwasanaethau cymunedol a gwasanaethau eraill y GIG, ac â'r gwasanaethau cymdeithasol.
(Tudalen 17)

Argymhelliad 4. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n sicrhau bod y trefniadau am wasanaeth cadeiriau olwyn wedi'i ailstrwythuro'n cynnwys cyfrifoldebau a llinellau atebolrwydd clir ar gyfer cyflenwi'r gwasanaeth.
(Tudalen 18)

Argymhelliad 5. Rydym yn argymell y dylai mesurau perfformiad newydd ganolbwyntio ar ganlyniadau i ddefnyddwyr, gan ystyried eu hanghenion ehangach.
(Tudalen 22)

Argymhelliad 6. Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog barhau i adolygu'r mesurau perfformiad a'r targedau a gynllunnir, ac y dylai gyflwyno sancsiynau am ddiffyg cydymffurfio.
(Tudalen 22)

Argymhelliad 7. Rydym yn argymell y dylai'r fanyleb gwasanaeth gynnwys cynllun gweithredu, sy'n cynnwys targedau a cherrig milltir, i fodloni safonau'r NSF Plant ar gadeiriau olwyn.
(Tudalen 22)

Argymhelliad 8. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n sicrhau bod y gwasanaeth yn paratoi strategaeth gyfathrebu, i amlinellu sut y bydd yn gwella cyfathrebu â defnyddwyr a rhanddeiliaid. Dylid llunio'r strategaeth gyfathrebu hon a'i chyflwyno fel mater o frys. **(Tudalen 26)**

Argymhelliad 9. Rydym yn argymell y dylai'r strategaeth gyfathrebu gynnwys mesurau i ddarparu gwell gwybodaeth i ddefnyddwyr yn gyffredinol, ond yn enwedig am gynnydd o fewn y system. **(Tudalen 26)**

Argymhelliad 10. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru archwilio, gyda'r gwasanaeth, mudiadau gwirfoddol ac elusennau, opsiynau i ddarparu'r datrysiadau dros dro gorau posibl i ddefnyddwyr a fydd yn aros am gyfnodau arwyddocaol am gyflenwi neu gynnal a chadw cadair. **(Tudalen 31)**

Argymhelliad 11. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gynnal asesiad o anghenion adnoddau hirdymor y gwasanaeth, gan roi ystyriaeth benodol i'r adnoddau sy'n ofynnol er mwyn cynnal gwell amseroedd aros; darparu adolygiadau rheolaidd i rai defnyddwyr; a chlirio ôl-groniad y rhestr aros yng Ngogledd Cymru. Yna, dylai'r Llywodraeth roi datganiad clir sy'n amlinellu sut y mae'n bwriadu bodloni'r gofynion hyn o ran adnoddau yn y cylch cyllideb presennol. **(Tudalen 33)**

Argymhelliad 12. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru archwilio cyfleoedd i gydweithio rhwng ALAS a sefydliadau, elusennau, therapyddion cymunedol ac eraill, ac y dylai hyn ffurfio rhan ganolog o gynllun strategol y gwasanaeth. **(Tudalen 38)**

Argymhelliad 13. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n sicrhau y gwneir ymdrechion i symleiddio'r broses atgyfeirio, o bosibl drwy ddatblygu adnoddau ar-lein. **(Tudalen 38)**

Argymhelliad 14. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau y ceir digon o therapyddion cymunedol sydd wedi'u hyfforddi i gynnal asesiadau Lefel 3. **(Tudalen 38)**

Argymhelliad 15. Rydym yn argymell, fel mater o frys, y dylai Llywodraeth Cymru egluro a chyhoeddi'r polisiâu a'r trefniadau ar gyfer cyllido ar y cyd â sefydliadau ac unigolion. **(Tudalen 40)**

Argymhelliad 16. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n egluro ac yn cyhoeddi eu polisiau a'u trefniadau ar gyfer cynnal a chadw ac atgyweirio cyfarpar a brynir gan unigolion. **(Tudalen 40)**

Argymhelliad 17. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru archwilio ymhellach y posibilrwydd o gyfuno cyllidebau sy'n bodoli eisoes, yn enwedig cyllidebau addysg, yng nghyswllt darparu cyfarpar i ddefnyddwyr. **(Tudalen 41)**

Argymhelliad 18. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru adolygu trefniadau benthycu cadeiriau olwyn tymor byr, nad ydynt yn cael eu darparu gan ALAS, i sicrhau bod digon o adnoddau i ddarparu'r gwasanaeth hwn. **(Tudalen 43)**

Argymhelliad 19. Rydym yn argymell hefyd y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau y ceir cydweithio agosach rhwng ALAS a'r sawl sy'n darparu cadeiriau olwyn am fenthyciadau tymor byr, yn enwedig y Groes Goch Brydeinig. **(Tudalen 43)**

Argymhelliad 20. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod trefniadau cynnal a chadw ac atgyweirio ALAC Caerdydd ac ALAC Wrecsam yn parhau i gael eu hadolygu, er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn bodloni'r safonau gofynnol. **(Tudalen 50)**

Argymhelliad 21. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod ALAS yn ymgynghori â ddefnyddwyr a rhanddeiliaid am eu hanghenion cyn cynnal unrhyw broses dendro yn y dyfodol ar gyfer contractau atgyweirio a chynnal a chadw. **(Tudalen 50)**

Argymhelliad 22. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau y cyflenwir adolygiadau rheolaidd i ddefnyddwyr, yn enwedig i blant ac i ddefnyddwyr eraill â chyflyrau sy'n newid. **(Tudalen 52)**

Argymhelliad 23. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod ALAS yn archwilio cyfleoedd i gydweithio ag elusennau i ddarparu hyfforddiant i ddefnyddwyr. **(Tudalen 53)**

1. Cyflwyniad

1. Cytunodd y Pwyllgor i gynnal ymchwiliad i wasanaethau cadeiriau olwyn yng Nghymru ar ôl beirniadaeth mewn blynyddoedd diweddar, yn enwedig ynghylch amseroedd aros am asesiadau a darpariaeth.
2. Yn ôl arolwg¹ a gynhaliwyd yn 2006 gan Gyswllt Teulu, roedd mwy na 80 y cant o deuluoedd wedi aros yn hwy na tharged y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a'r Gwasanaethau Mamolaeth o chwe wythnos am asesiad, ac roedd mwy na 60 y cant o deuluoedd wedi aros yn hwy na'r targed o wyth wythnos ar gyfer cyflenwi'r gadair olwyn.
3. Tynnodd yr arolwg sylw hefyd at brofiadau amrywiol o wasanaethau adolygu, atgyweirio a chynnal a chadw; angen am fwy o ddewis a hyblygrwydd i ddiwallu anghenion unigol; ac angen am well hyfforddiant mewn defnyddio cadeiriau olwyn.

Cylch gorchwyl

4. Cytunodd y Pwyllgor ar gylch gorchwyl yr ymchwiliad yng nghyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 18 Tachwedd 2009. Dyma'r cylch gorchwyl:

“Ymchwilio i ddarpariaeth gwasanaethau cadeiriau olwyn yng Nghymru ar gyfer plant ac oedolion, gan gynnwys:

- Amseroedd aros am asesiadau a darparu cadeiriau olwyn;
- Y trefniadau ar gyfer comisiynu a darparu cadeiriau olwyn drwy'r Gwasanaeth Aelodau Artiffisial a Chyfarpar a drwy drefniadau lleol ar gyfer defnydd tymor byr;
- Effeithiolrwydd gwasanaethau cadeiriau olwyn o ran diwallu anghenion unigol, megis rhai plant a phobl ifanc, cyn-filwyr rhyfel, a phobl â chyflyrau sy'n gwaethygu megis Sglerosis Ymledol;
- Y trefniadau ar gyfer adolygu anghenion unigol a diweddarau, cynnal a chadw ac atgyweirio cadeiriau olwyn;
- Ystyriaethau cydraddoldeb wrth ddarparu cadeiriau olwyn gan gynnwys, er enghraifft, amrywiaeth ddaearyddol; darpariaeth ar draws grwpiau oedran; materion sy'n effeithio ar grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a

¹ Cyswllt Teulu (2006) [Gwasanaethau Cadeiriau Olwyn ar gyfer Plant a Phobl Ifanc yng Nghymru](#)

siaradwyr Cymraeg; a hygyrchedd gwasanaethau cadeiriau olwyn o ran lleoliad, amseroedd agor a gwybodaeth;

- Defnydd ac effeithiolrwydd dangosyddion perfformiad ac ansawdd mewn gwasanaethau cadeiriau olwyn; ac
- Adnoddau gwasanaethau cadeiriau olwyn yng Nghymru.”

Dulliau

5. Cynhaliwyd yr ymchwiliad rhwng mis Tachwedd 2009 a mis Mawrth 2010, a chyhoeddwyd y cais am dystiolaeth ar 16 Tachwedd 2009.

Cafwyd naw ar hugain o gyflwyniadau gan 15 o unigolion—gan gynnwys defnyddwyr cadeiriau olwyn, rhieni, gofalwyr a gweithwyr proffesiynol ym maes iechyd—a 14 o gyrff proffesiynol a grwpiau diddordeb arbennig. Darperir dolen [yma](#) at dudalennau gwe’r ymchwiliad, ble gallwch weld y cyflwyniadau ysgrifenedig.

6. Gwahoddwyd pymtheg set o dystion i roi tystiolaeth ar lafar yn ystod saith o gyfarfodydd y Pwyllgor. Darperir rhestr o ddyddiadau cyfarfodydd, manylion y tystion a ymddangosodd, y papurau ysgrifenedig a ddarparwyd i’r Pwyllgor, a dolenni at drawsgrifiadau yn Atodiad B.

7. Mae agendâu, papurau a thrawsgrifiadau pob cyfarfod ar gael yn llawn ar dudalennau’r Pwyllgor ar wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a gellir eu gweld [yma](#).

8. Hefyd, cynhaliodd aelodau’r Pwyllgor ymweliadau â chanolfannau’r Gwasanaeth Aelodau Artiffisial a Chyfarpar yn Wrecsam a Chaerdydd, Gwasanaeth Cadeiriau Olwyn De Sefton a Kirkby, a’r gwneuthurwr cadeiriau olwyn, Invacare.

2. Cefndir

Strwythur y Gwasanaeth

9. Cyflenwir gwasanaethau cadeiriau olwyn yng Nghymru gan y Gwasanaeth Aelodau Artiffisial a Chyfarpar (ALAS).

10. Cyflenwir y gwasanaeth ALAS o ddwy ganolfan (Canolfannau Aelodau Artiffisial a Chyfarpar – ALAC). Mae canolfan yn Wrecsam yn darparu'r gwasanaeth i Ogledd Cymru, a chanolfan yng Nghaerdydd yn darparu'r gwasanaeth i Dde Cymru.

11. Adeg ymchwiliad y Pwyllgor, Comisiwn Iechyd Cymru oedd yn gyfrifol am gomisiynu gwasanaethau ystum corff a symudedd gan ALAS, drwy gytundebau lefel gwasanaeth gyda'r Byrddau Iechyd Lleol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (i Dde Cymru) a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (i Ogledd Cymru).

Gweithredu'r Gwasanaeth

12. Gellir rhannu darpariaeth cadeiriau olwyn yn fenthyciadau tymor byr (diffinnir y rhain fel benthyciadau am lai na chwe mis) a benthyciadau hirdymor (diffinnir y rhain fel benthyciadau am chwe mis neu fwy, neu am lai na chwe mis i bobl â chyflyrau lliniarol). Dim ond i oedolion y mae'r gwahaniaeth rhwng benthyciadau tymor byr a hirdymor yn berthnasol. Darperir pob cadair olwyn i blant drwy ALAS.

Benthyciadau Tymor Byr

13. Nid yw darparu cadeiriau olwyn am fenthyciadau tymor byr o fewn cylch gwaith ALAS. Darperir cadeiriau olwyn am fenthyciadau tymor byr mewn ysbytai a lleoliadau cymunedol, gan y Groes Goch Brydeinig mewn nifer o ardaloedd. Nid yw'r gwasanaethau hyn yn ddarostyngedig i'r dangosyddion perfformiad a'r safonau gwasanaeth sy'n berthnasol i wasanaethau a ddarperir gan ALAS.

Benthyciadau Hirdymor

14. ALAS sy'n darparu asesiadau a darpariaeth ystum corff a symudedd i unigolion a chanddynt angen parhaol neu hirdymor.

Gwasanaeth Atgyweiriadau

15. Tan fis Chwefror 2010, bu ALAS yn is-gontractio'r gwasanaeth cynnal a chadw, glanhau, ailwampio ac atgyweirio cadeiriau olwyn i'r is-gontractwr Serco yng Ngogledd a De Cymru. Er bod y trefniadau hyn yn dal i fod ar waith yng Ngogledd Cymru, yn Ne Cymru, daeth y

gwasanaeth yn rhan o ALAC Caerdydd, o ganlyniad i adborth anffafriol gan ddefnyddwyr gwasanaeth.

Safonau ac Amseroedd Aros

16. Mae'r [Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a'r Gwasanaethau Mamolaeth](#)² yn cynnwys safonau gwasanaeth ar gyfer asesu a darparu cadeiriau olwyn i blant anabl. Mae'r rhain yn darparu ar gyfer asesiad o fewn chwe wythnos a darparu cadair olwyn o fewn wyth wythnos ar ôl yr asesiad.

17. Yn ôl arolwg³ a gynhaliwyd yn 2006 gan Gyswllt Teulu, roedd mwy na 80 y cant o deuluoedd wedi aros yn hwy na tharged y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer asesiad, ac roedd mwy na 60 y cant o deuluoedd wedi aros yn hwy na'r targed ar gyfer cyflenwi'r gadair olwyn.

18. O fis Rhagfyr 2008 ymlaen, pennodd Comisiwn Iechyd Cymru safonau i ALAS ar gyfer cylch atgyfeirio-i-gyflenwi fel a ganlyn:

- 15 mis i oedolion
- 12 mis i blant

Gwaith Arall

Cynllun Pum Mlynedd

19. Mewn ymateb i adroddiad gan y Comisiwn Archwilio a gyhoeddwyd yn 2001, dechreuwyd prosiect gan Gomisiynydd Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru i ymgynghori â defnyddwyr cadeiriau olwyn a sefydliadau sy'n cynrychioli pobl anabl ledled Cymru ar y pryd i archwilio dyfodol y gwasanaethau a ddarperir. Canlyniad yr ymgynghoriad hwn oedd cynllun gweithredu pum mlynedd manwl i fynd i'r afael â phryderon defnyddwyr cadeiriau olwyn a'u gofalwyr/gweithwyr cymorth. Mae rhai o argymhellion y cynllun gweithredu pum mlynedd wedi'u rhoi ar waith, ond nid pob un ohonynt.

Adolygiad Llywodraeth Cymru o wasanaethau Ystum Corff a Symudedd yng Nghymru

20. Ym mis Mai 2008, comisiynodd y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Edwina Hart AC, adolygiad o wasanaethau ystum corff a symudedd yng Nghymru. Roedd yr

² Llywodraeth Cymru, Plant - [tudalennau gwe](#)'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol, cyrchwyd 9.5.10

³ Cyswllt Teulu (2006) [Gwasanaethau Cadeiriau Olwyn ar gyfer Plant a Phobl Ifanc yng Nghymru](#)

adolygiad yn cynnwys benthyciadau hirdymor a thymor byr a gwasanaethau cadeiriau olwyn pediatrig. Diben yr adolygiad oedd “argymell Safonau Gwasanaeth a Manylebau ar gyfer darparu gwasanaethau cadair olwyn, [a] nodi’r adnoddau sy’n ofynnol i gynnig y gwasanaeth mewn blynyddoedd i ddod”⁴.

21. Cyhoeddodd y Gweinidog gynlluniau ar gyfer Cam 2 yr adolygiad wrth roi tystiolaeth i’r Pwyllgor ar 4 Mawrth 2010.

⁴ Gweler Datganiad Ysgrifenedig y Cabinet 16 Mai 2008, [Ymqyrch Plant Anabl yn Cyfri](#), Jane Hutt AC, y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

3. Strwythur a Chyfeiriad Strategol Gwasanaethau Cadeiriau Olwyn

Strwythur y Gwasanaeth

22. Yn ystod ein hymchwiliad, clywodd y Pwyllgor dystiolaeth am ba mor briodol yw strwythur presennol y gwasanaeth cadeiriau olwyn.

23. Awgrymodd y Gymdeithas Sglerosis Ymledol a Swyddfa'r Comisiynydd Plant y dylid modelu'r gwasanaeth o gwmpas y saith Bwrdd Iechyd newydd. Dywedodd y Gymdeithas Sglerosis Ymledol eu bod yn teimlo y gallai trefniant o'r fath wella atebolrwydd.

Dywedasant:

“If we explore moving towards a system of seven smaller centres based around the local health boards, accountable to those boards and to the people appointed by the Minister and by the stakeholders in that area, you could have some local accountability and a service that could deliver specific services to a geographical area.”⁵

24. Fodd bynnag, roedd pwysau'r dystiolaeth o blaid un gwasanaeth cenedlaethol yn cael ei gyflenwi, petai angen, o fwy nag un ganolfan fel sy'n digwydd ar hyn o bryd. Teimlwyd y byddai hyn yn helpu i sicrhau bod safonau'n unffurf ledled Cymru. Dywedodd Dr. Kevin Fitzpatrick, Cadeirydd Grŵp Llywio Ystum Corff a Symudedd Cymru Gyfan, wrth y Pwyllgor:

“This is an all-Wales service. If we are to keep an equitable all-Wales service, we need one service and, yes, it needs investment and some support, but what I do not think we need is seven LHBs running seven different wheelchair services across Wales.”⁶

25. Dywedodd ALAC Caerdydd wrthym fod gwasanaeth a gyflenwir gan saith Bwrdd Iechyd mewn perygl o fod yn dameidiog, gyda'r adnoddau a'r arbenigedd sydd eu hangen mewn achosion cymhleth yn cael eu gwasgaru'n rhy denau. Dywedasant:

“The worst option would be to be broken up according to health boards. If four occupational therapists or less were working across several LHBs looking after children, it would be

⁵ Tystiolaeth Lafar, 18.11.09

⁶ Tystiolaeth Lafar, 4.3.10

a case of a bit of each. We would have problems with governance, duplication and peer support, and so on, which would be an absolute disaster.”⁷

Safbwynt y Gweinidog

26. Dywedodd y Gweinidog fod strwythur y gwasanaeth yn cael ei ystyried fel rhan o adolygiad Llywodraeth Cymru, a bod un prif sefydliad yn cael ei ystyried ar gyfer y gwasanaeth:

“We are reviewing the most appropriate model for a proposed single lead organisation that would have responsibility for managing and delivering services currently provided by the Artificial Limb and Appliance Service.”⁸

27. Aeth yn ei blaen:

“If we could have that appropriate model of one lead organisation, that would improve the situation significantly, because it would have responsibility for managing and delivering the services currently dealt with by ALAS and the rehabilitation engineering units, and that would be the right way forward.”⁹

Safbwynt y Pwyllgor

28. Mae'r Pwyllgor yn teimlo bod y trefniadau presennol o gyflenwi un gwasanaeth o ddwy ganolfan yn briodol, ond mae'n teimlo bod angen i'r ddau Fwrdd Iechyd Lleol a'r ddwy ALAC wneud mwy i gyflenwi gwasanaeth unedig ledled Cymru. Mae'r Pwyllgor yn rhoi sylw i'r mater hwn mewn argymhellion diweddarach.

Yr angen am Fanyleb Gwasanaeth

29. Dywedodd tystion wrth y Pwyllgor fod angen manyleb gwasanaeth ar y gwasanaeth i egluro ei ddiben a'i drefniadau gweithredu i ddefnyddwyr a rhanddeiliaid. Dywedodd Ruth Crowder o Goleg y Therapyddion Galwedigaethol y byddai manyleb gwasanaeth yn:

“...state the criteria for commissioning, set transparent parameters for the service, and say whether there will be eligibility criteria and limits on service specifications, as well as

⁷ Tystiolaeth Lafar, 21.1.10

⁸ Tystiolaeth Lafar, 4.3.10

⁹ Ibid

what will be provided. It also needs to identify whether there is a policy on top-up, shared and pooled funding.”¹⁰

30. Roedd Prif Weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Mary Burrows, hefyd yn teimlo bod angen manyleb gwasanaeth; dywedodd hi wrth y pwyllgor:

“We fully support the idea of having one service delivered through the two local health boards based on an agreed national specification, which we do not have currently. We are in agreement.”¹¹

31. Yn ei thystiolaeth, dywedodd Prif Weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Jan Williams, ei bod yn gobeithio y byddai'r mater yn derbyn sylw fel rhan o adolygiad Llywodraeth Cymru.

32. Awgrymodd Coleg y Therapyddion Galwedigaethol y gellid defnyddio'r fanyleb gwasanaeth fel sail i ystyried sut i sicrhau adnoddau i'r gwasanaeth yn y dyfodol:

“A proper option appraisal can then take place and we can look at a proper workforce review. So, whatever it is that is needed, for instance if they need administrative staff or systems, support staff or more assessors, it can be done holistically and thoroughly, so that we can overhaul the whole service and deliver something that is making a difference for people in Wales because, at the moment, it feels like fire-fighting all the time.”¹²

Safbwynt y Pwyllgor

33. Mae'r Pwyllgor yn teimlo y byddai cytuno ar fanyleb genedlaethol i'r gwasanaeth yn egluro swyddogaeth a diben y gwasanaeth.

Argymhellion

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru'n sicrhau bod manyleb gwasanaeth lawn, genedlaethol yn cael ei pharatoi, gan gynnwys manylion am ddull y gwasanaeth o gydweithio â sefydliadau eraill; cyllido ar y cyd â sefydliadau ac unigolion; a gwybodaeth am dargedau perfformiad a systemau monitro. (Argymhelliad 1)

¹⁰ Tystiolaeth Lafar, 21.1.10

¹¹ ibid

¹² ibid

Cyfeiriad Strategol

34. Roedd yn amlwg o'r dystiolaeth a gafwyd yn ystod yr ymchwiliad mai'r heriau mwyaf a wynebir gan y gwasanaeth yw lleihau amseroedd aros a diwallu anghenion defnyddwyr. Caiff yr heriau hyn eu cymhlethu yn y blynyddoedd nesaf gan ofynion cynyddol ar y gwasanaeth a phwysau cynyddol ar adnoddau.

35. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth bod cynllun strategol pum mlynedd, a lansiwyd yn 2004 ac a ddyluniwyd i fynd i'r afael â phroblemau â'r gwasanaeth, heb gael ei weithredu'n llawn na'i ariannu'n ddigonol.

Safbwynt y Pwyllgor

36. Mae'r Pwyllgor yn teimlo nad oes modd gwella'r gwasanaeth, na chynnal unrhyw welliannau, heb fynd ati mewn modd strategol. Felly, rydym yn argymhell llunio cynllun strategol ar gyfer y gwasanaeth, i roi cyfeiriad i'r gwasanaeth dros y blynyddoedd nesaf.

Argymhellion

Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru lunio cynllun strategol, i roi cyfeiriad i'r gwasanaeth dros y blynyddoedd nesaf. Dylid gwneud hyn ar y cyd â'r darparwyr gwasanaeth, defnyddwyr, rhanddeiliaid a phartion eraill â diddordeb. (Argymhelliad 2)

Rydym yn argymhell y dylai'r cynllun strategol roi sylw i'r angen i integreiddio'r gwasanaeth yn well â gwasanaethau cymunedol a gwasanaethau eraill y GIG, ac â'r gwasanaethau cymdeithasol. (Argymhelliad 3)

Atebolrwydd

37. Soniodd nifer o dystion am gymhlethdod y system, gan gyfeirio at argraff o ddiffyg atebolrwydd o fewn y gwasanaeth. Meddai Mae Plant Anabl yn Cyfri:

“It is very important to have clearer leadership as to who is responsible for what...Whatever the structure, it must be clear who is responsible for this service within the health service. Currently it is not clear, and potentially that will still be the case. You would hope that the review would comment on that.”¹³

¹³ Tystiolaeth Lafar, 18.11.09

Safbwynt y Gweinidog

38. Wrth sôn am atebolrwydd, dywedodd y Gweinidog y byddai Comisiwn Iechyd Cymru'n cael ei ddisodli cyn bo hir gan Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru. Ychwanegodd Mr. Simon Dean, Cyfarwyddwr Strategaeth a Chynllunio, yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol:

“You need to remember that the Welsh Health Specialised Services Committee is made up of the LHB chief executives, so it is their organisation. It is critical for me to get a national approach that is firmly embedded in local services. It cannot be one or the other; it has to be both. So, the organisation that delivers may be a single national organisation, but it has to be fully linked into the other local services that need to support ALAC and the patients who make use of ALAC services. We have to do both: we must have the national consistency that the Minister has talked about, but appropriate local arrangements that tie services together, so that we do not create difficulties at a more local level. WHSSC is in an ideal position to do that, because it is owned by the chief executives of the local health boards. It is their committee and it is an important step forward.”¹⁴

Safbwynt y Pwyllgor

39. Mae'r Pwyllgor yn teimlo bod atebolrwydd a chyfrifoldeb dros gyflenwi'n faes pwysig y mae angen rhoi sylw iddo, yn enwedig yng ngoleuni cyflwyno Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru.

Argymhelliad

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n sicrhau bod y trefniadau am wasanaeth cadeiriau olwyn wedi'i ailstrwythuro'n cynnwys cyfrifoldebau a llinellau atebolrwydd clir ar gyfer cyflenwi'r gwasanaeth. (Argymhelliad 4)

Targedau a Dangosyddion Perfformiad

40. Roedd tystiolaeth yn awgrymu nad yw gwasanaethau cadeiriau olwyn yn destun targedau a dangosyddion perfformiad clir sy'n cynnwys sancsiynau am ddiffyg cydymffurfio. Dywedwyd wrth y Pwyllgor bod angen dannedd ar y targedau, a bod angen sancsiynau

¹⁴ Tystiolaeth Lafar, 4.3.10

mewn achosion o ddiffyg cydymffurfio. Meddai Mae Plant Anabl yn Cyfri:

“With regard to the particular key actions relating to wheelchair services, unfortunately they have not demonstrated any development. So, in that sense, it begs the question as to where the teeth are to see this through.”¹⁵

41. Dywedodd ALAS wrthym y byddent yn croesawu targedau perfformiad fel modd o sicrhau ffocysu adnoddau ar gyflawni safonau uchel. Dywedodd ALAC Caerdydd eu bod yn teimlo y dylai'r targedau fod yn realistig ac y dylent roi sylw i ofynion penodol y gwasanaeth ac anghenion y defnyddwyr:

“Performance targets need to be realistic and need to take into account the needs of our group of clients, because they will be our clients for life. Many have chronic conditions, so their dealings with us are not a one-off, as with many other services with waiting lists. It is different for us, and we need to be responsive to that. The policies on patients who do not attend that are implemented in some other services are not right for us. If a child DNAs, for example, it is not their fault, but that of their carer or parent.”¹⁶

42. Dywedodd Mary Burrows, Prif Weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, fod y Bwrdd Iechyd yn llunio eu dangosyddion perfformiad eu hunain. Ychwanegodd Clive Sparkes, Pennaeth Staff, Grŵp Rhaglenni Clinigol Cymorth Therapiau a Chlinigol, Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr:

“Clearly, where targets are set for services, there is a focus of resources around those services. This service that does not have that sort of focus, however, and that is a shame.”¹⁷

43. Roedd tystion yn credu y dylai strategaeth perfformiad newydd ganolbwyntio ar ganlyniadau a gwerthuso'r gwasanaeth. Dywedodd Coleg y Therapyddion Galwedigaethol wrth y Pwyllgor:

“You need to ensure that standards are monitored and are effective, measurable standards. We would want to see outcomes measured. That is something that is really not in place. For example, when equipment is provided, if it is not being reviewed and there is no return, how does anyone know whether that equipment is meeting the need? Who is looking at

¹⁵ Tystiolaeth Lafar, 18.11.09

¹⁶ Tystiolaeth Lafar, 11.2.10

¹⁷ ibid

whether the money that is being spent is being spent effectively?"¹⁸

Targedau Deallus

44. Ym mis Mawrth 2010, cyhoeddodd y Gweinidog ddangosyddion perfformiad a thargedau amseroedd amser cenedlaethol newydd ar gyfer gwasanaethau cadeiriau olwyn. Awgrymodd tystion y gallai'r targedau deallus fod yn effeithiol o ran rhoi golwg gyfannol ar y gwasanaeth. Dywedodd y Gymdeithas Siartredig Ffisiotherapi wrth y Pwyllgor:

"We felt that this was an area in which the intelligent target process that the Government has been looking at could be useful, because you need to look at the whole of the wheelchair service. There are so many component parts that could all be within that. That could be very useful."¹⁹

Safbwynt y Gweinidog:

45. Dywedodd y Gweinidog y byddai dangosyddion perfformiad yn chwarae rhan bwysig o ran gwella'r gwasanaeth:

"The key performance indicators will drive the performance improvement agenda and allow us to target appropriate areas."²⁰

46. Ychwanegodd y câi perfformiad a thargedau eu hystyried ymhellach ar ôl ystyried prosesau rheoli rhestri aros yng nghan 2 adolygiad Llywodraeth Cymru:

"We can then, hopefully, look at what would be satisfactory performance indicators that would lead to shorter waiting times for individuals."²¹

Y Fframwaith Safonau Cenedlaethol (NSF) Plant

47. Nid yw'r gwasanaeth cadeiriau olwyn yn bodloni'r safonau sydd wedi'u cynnwys yn yr NSF Plant, ond ystyriwyd eu bod yn gosod safonau derbyniol. Cyfeiriodd Coleg y Therapyddion Galwedigaethol at y ffaith na thynnwyd sylw at y safonau NSF i gadeiriau olwyn:

"We need to see a real focus on outcomes and proper service evaluation as part of the priorities for the service structure.

¹⁸ Tystiolaeth Lafar, 21.1.10

¹⁹ Tystiolaeth Lafar, 21.1.10

²⁰ Tystiolaeth Lafar, 4.3.10

²¹ *ibid*

Where NSF standards are not flagged, they are not a priority for local health boards. It is the annual operating framework and other priorities, which have a pressure attached to them, that are met before anything that is not flagged.”²²

48. Dywedodd Jan Williams, Prif Weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a’r Fro, o ran y gwasanaeth cadeiriau olwyn, fod y Byrddau Iechyd wedi’u rhwymo gan ofynion Comisiwn Iechyd Cymru. Dywedodd:

“We have been resourced to work to the standard that HCW has set us on this, and we never get anywhere near the 15 months or 12 months standard, so we are well within that standard.”²³

49. Dywedodd ALAC Wrecsam fod bodloni’r NSF Plant yn un o’u dyheadau ar hyn o bryd:

“We are hoping that the turnaround team and the result of your committee’s investigations will help us towards a more sustainable service, the aspiration for which would be to meet the children’s national service framework on waiting times.”²⁴

Safbwynt y Gweinidog

50. Dywedodd y Gweinidog y canlynol am fodloni safonau’r NSF:

“Yes, we were well aware that we were not meeting our commitments in the NSF and so we did put resource in, but that is a very temporary measure. You have to look at the long-term measures that you have to put in place and the long-term financial stability that you provide.”²⁵

51. Dywedodd Mr Dean, Cyfarwyddwr Strategaeth a Chynllunio, yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, fod y Gweinidog wedi cymryd camau i roi adnoddau ychwanegol i’r gwasanaeth pan fu’n bosibl eu canfod. Ychwanegodd fod y Gweinidog wedi sicrhau bod £525,000 ar gael dros y flwyddyn ddiwethaf i helpu i fynd i’r afael â rhywfaint o’r ôl-groniad ar restr aros Gogledd Cymru.

Safbwynt y Pwyllgor

52. Mae’r Pwyllgor yn teimlo bod targedau a mesurau perfformiad cadarn yn hollbwysig er mwyn i’r gwasanaeth wella. Rydym yn deall bod y Gweinidog yn y broses o gyflwyno targedau deallus ar gyfer

²² Tystiolaeth Lafar, 21.1.10

²³ *ibid*

²⁴ Tystiolaeth Lafar, 11.2.10

²⁵ Tystiolaeth Lafar, 4.3.10

gwasanaethau cadeiriau olwyn. Rydym yn teimlo y dylid parhau i adolygu'r targedau hyn i sicrhau eu bod yn ddigon cadarn, gan ddal i fod yn realistig. O ran y safonau yn yr NSF Plant, mae'r Pwyllgor yn derbyn nad yw'r gwasanaeth mewn sefyllfa i allu bodloni'r safonau hynny dros nos. Fodd bynnag, credwn y dylai bodloni'r safonau hynny fod yn darged yn hytrach na dyhead. Felly, teimlwn fod angen llunio cynllun gweithredu i amlinellu pryd a sut y gwneir cynnydd tuag at fodloni'r safonau hynny.

Argymhellion

Rydym yn argymell y dylai mesurau perfformiad newydd ganolbwyntio ar ganlyniadau i ddefnyddwyr, gan ystyried eu hanghenion ehangach. (Argymhelliad 5)

Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog barhau i adolygu'r mesurau perfformiad a'r targedau a gynllunnir, ac y dylai gyflwyno sancsiynau am ddiffyg cydymffurfio. (Argymhelliad 6)

Rydym yn argymell y dylai'r fanyleb gwasanaeth gynnwys cynllun gweithredu, sy'n cynnwys targedau a cherrig milltir, i fodloni safonau'r NSF Plant ar gadeiriau olwyn. (Argymhelliad 7)

Cyfathrebu

53. Daeth yn amlwg yn ystod yr Ymchwiliad bod cyfathrebu'n broblem sylweddol. Roedd nifer o dystion yn beirniadu'r diffyg gwybodaeth am sut i gael mynediad at y gwasanaeth ac, yn benodol, yn beirniadu'r cynnydd tuag at gael cadair olwyn ar ôl i ddefnyddwyr gael eu hasesu. Dywedodd y Gymdeithas Siartredig Ffisiotherapi wrth y Pwyllgor:

“When people want a wheelchair, their order is placed, and it is the time until they get it that is important. There is a lot of information that people need to know about all the different aspects of that wait. Part of the issue is with communication: it is about being quite clear with people where and why they are waiting.”²⁶

54. Dywedodd Scope Cymru nad yw'r iaith a ddefnyddir gan y gwasanaeth yn hawdd ei deall bob amser. Dywedodd Scope Cymru:

“That internal language needs to be translated into a language that the service user—the user of the wheelchair—can

²⁶ Tystiolaeth Lafar, 21.1.10

understand. They might not have had anything to do with social care before.”²⁷

55. Pwysleisiodd staff therapi cymunedol fod angen gwell cyfathrebu er mwyn sicrhau y gallant barhau i gael eu cynnwys yn y broses. Dywedodd Coleg y Therapyddion Galwedigaethol fod cyfathrebu'n hollbwysig o ran hwyluso cydweithio:

“People feel that there should be much more communication with the service users and carers and with the local services to make this a much more integrated service so that any decisions about provision are integrated into the whole package of care”²⁸

56. Cydnabu ALAS fod angen gweithio i wella cyfathrebu. Roedd ALAC Wreccsam wedi nodi bod cyfathrebu'n fater allweddol ac wedi cynnal adolygiad yn 2009. Dywedasant:

“We have made some changes already, for example having a service policy to return calls within a maximum of five working days in respect of enquiries from referrers and service users. At the moment we are working on information for clients who have been newly referred to the service, which sets out the expectations that they should have of the service as well as giving a lot of background information about the service upon referral. We are building a database of referrers so that we can acknowledge referrals from them as they come in, by e-mail if possible. We are undertaking more routine communication with referred clients about their position on the waiting list and are maintaining contact with them. We are also developing a website at the moment as a vehicle for several aspects of improving communication.”²⁹

57. Hefyd, dywedodd ALAC Wreccsam wrth y Pwyllgor y byddent cyn bo hir yn rhoi cyfres o welliannau ar waith yng nghyswllt cyfathrebu â therapyddion cymunedol. Cydnabu Therapyddion Galwedigaethol y cafwyd rhai gwelliannau diweddar o ran cyfathrebu ag ALAC Wreccsam.

58. Dywedodd ALAC Caerdydd wrth y Pwyllgor eu bod yn y broses o fynd i'r afael â chyfathrebu â defnyddwyr ac â therapyddion cymunedol.

²⁷ Tystiolaeth Lafar, 2.12.09

²⁸ Tystiolaeth Lafar, 21.1.10

²⁹ Tystiolaeth Lafar, 11.2.10

Safbwynt y Gweinidog

59. Dywedodd y Gweinidog y byddai'r materion hyn yn cael sylw yng ngham 2 adolygiad Llywodraeth Cymru. Dywedodd:

“It is unacceptable that people are not getting information. If something cannot be done straight away, it is nice to be told, ‘You’re still on our books, we are trying to do it, and it will be done’. This is fairly basic communication, which we come to expect when we deal with companies as individuals. People are generally kept updated, but I do not think that we have been very good at doing that. We have not been very good at doing it, historically, in the NHS. The situation is certainly improving; we are trying to treat citizens properly, keeping up with communication. This will be dealt with in phase 2; it is absolutely essential. If you are a parent waiting a long time for a wheelchair for your child, you do not want to feel that you have been forgotten about. I have told them in the centre that they might think that it is okay, but that, when you are waiting at home every day for a letter, it is not the same.”³⁰

Safbwynt y Pwyllgor

60. Mae'r Pwyllgor yn teimlo bod cyfathrebu â defnyddwyr a phobl eraill sy'n ymwneud â'r gwasanaeth yn rhan hanfodol o gyflenwi gwasanaeth effeithiol. Er bod y Pwyllgor yn croesawu'r gwaith sydd eisoes wedi'i wneud yn y maes hwn gan y ddau ALAC unigol, teimlwn fod angen defnyddio dull mwy strategol. Felly, rydym yn argymhell llunio strategaeth gyfathrebu i'r gwasanaeth cyfan, i amlinellu sut y bydd y gwasanaeth yn gwella cyfathrebu â defnyddwyr, rhanddeiliaid a phobl eraill.

Argymhelliad

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru'n sicrhau bod y gwasanaeth yn paratoi strategaeth gyfathrebu, i amlinellu sut y bydd yn gwella cyfathrebu â defnyddwyr a rhanddeiliaid. Dylid llunio'r strategaeth gyfathrebu hon a'i chyflwyno fel mater o frys. (Argymhelliad 8)

Rydym yn argymhell y dylai'r strategaeth gyfathrebu gynnwys mesurau i ddarparu gwell gwybodaeth i ddefnyddwyr yn gyffredinol, ond yn enwedig am gynnydd o fewn y system. (Argymhelliad 9)

³⁰ Tystiolaeth Lafar, 4.3.10

4. Gweithredu'r Gwasanaeth

Amseroedd Aros

61. Clywodd y Pwyllgor fod amseroedd aros am asesiadau a darparu cadeiriau olwyn yn broblem ddifrifol i rai defnyddwyr gwasanaeth. Er nad yw'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr yn profi amseroedd aros hir, mae nifer o'r 20 y cant o ddefnyddwyr a chanddynt anghenion cymhleth, gan gynnwys rhai plant, yn wynebu arhosiad hir.

Amseroedd Aros yng Ngogledd Cymru

62. Cadarnhaodd tystiolaeth fod amseroedd aros yn hwy i bobl sy'n defnyddio gwasanaeth Gogledd Cymru. Awgrymwyd y gallai maint a daearyddiaeth yr ardal a wasanaethir gan ALAC Wrecsam fod yn ffactorau sy'n cyfrannu at yr amseroedd aros hwy. Gallai amseroedd aros yn yr ardal hon fod cyn hired â 15 mis i oedolion a 23 mis i blant. Fodd bynnag, dywedwyd wrth y Pwyllgor fod llawer o waith wedi'i wneud i leihau'r ffigurau hyn dros y blynyddoedd diwethaf, gan gynnwys buddsoddiad untro o £525,000 ddwy flynedd yn ôl, pan oedd amseroedd aros cyn hired â 50 mis ar brydiau.

63. Dywedodd tystion wrth y Pwyllgor mai pobl sy'n byw bellaf oddi wrth ganolfan Wrecsam, er enghraifft ym Mhowys a Gogledd Orllewin Cymru, sy'n profi'r arosiadau hiraf.

Amseroedd Aros yn Ne Cymru

64. Clywodd y Pwyllgor fod amseroedd aros yn fyrrach yn Ne Cymru, a bod y gwasanaeth yn bodloni safonau Comisiwn Iechyd Cymru o 21 diwrnod am gadair olwyn safonol a 12 a 15 mis i blant ac oedolion ag anghenion cymhleth yn ôl eu trefn.

Effaith Amseroedd Aros Hir ar Ddefnyddwyr

65. Clywodd y Pwyllgor fod amseroedd aros hir yn cael effaith sylweddol ar fywydau defnyddwyr, yn enwedig plant. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth o deuluoedd yn prynu eu cadeiriau olwyn eu hunain, naill ai gyda'u harian eu hunain neu gyda chymorth elusen, er mwyn osgoi arhosiad hir. Oherwydd yr amseroedd aros hir am gadeiriau olwyn pediatriig, gall defnyddwyr fod wedi tyfu'n rhy fawr i'r cyfarpar erbyn iddo gyrraedd. Clywodd y Pwyllgor y gall peidio â chael cadair olwyn briodol lesteirio symudedd, twf a datblygiad plentyn.

66. I nifer o oedolion, mae cadair olwyn addas yn angenrheidiol er mwyn iddynt aros mewn cyflogaeth. Gall pobl sy'n aros am amser hir fod yn gaeth i'w tai am gyfnodau hir.

Y camau a gymerwyd i fynd i'r afael ag amseroedd aros

67. Dangosodd tystiolaeth o ALAS a'r Byrddau Iechyd fod cynnydd yn y galw; strwythur gwasanaeth tameidiog; problemau gyda recriwtio, cadw a hyfforddi staff; a diffyg adnoddau'n ffactorau sy'n effeithio ar amseroedd aros.

68. Dywedodd y ddau Fwrdd Iechyd sy'n darparu'r gwasanaeth eu bod wedi cymryd camau i fynd i'r afael ag amseroedd aros yn eu hardaloedd. Dywedodd Mary Burrows, Prif Weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr:

“We have put in additional funding to get the waiting list down; it will still not reach the target, but we are reducing waiting times as much as we can. That will partly be achieved through internal efficiencies exercises and partly through integrating the service more fully over the next couple of months.”

69. Dywedodd Jan Williams, Prif Weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro:

“We have put in place waiting times initiatives. I wanted to mention that Mike and I are in the early stages of discussions around moving this to a seven-day service. That is not just for this particular service, but for the NHS as a whole. The waiting times work that we did was based on weekend working, and we found that service users preferred it—they welcomed the opportunity to receive home visits on a Saturday or Sunday, because it was more convenient for them. As we go forward, and we get a better handle on how to bring waiting times down the seven-day service issue, particularly for home visits, is a really important point.”³¹

70. Dywedodd ALAC Caerdydd y gallai mentrau rhestri aros weithio yn y tymor byr, ond nad oeddent yn rhoi datrysiad cynaliadwy:

“We have had limited-waiting-list initiatives, so we have been able to do some work in that regard. As you know, a waiting-list initiative is not recurring, so, although you take people from the front of the list, you are left with more people who

³¹ Tystiolaeth Lafar, 21.1.10

need to be fitted for their wheelchairs. That is a balancing act. It is a short-term fix and not a long-term solution.”³²

Gwasanaethau integredig

71. Dywedodd y Byrddau Iechyd a'r Gwasanaeth Aelodau Artiffisial a Chyfarpar wrthym eu bod yn ceisio sicrhau bod y gwasanaeth wedi'i integreiddio'n well er mwyn datblygu gwasanaethau cydlynol a defnyddio adnoddau mor effeithlon â phosibl. Dywedodd ALAC Wrecsam wrthym:

“We believe that this service is an integral part of disability services, and sometimes, the fact that it has been seen as a separate service has been part of the difficulty. It should work seamlessly with local clinical professionals and it should be part of their service. My chief executive is convinced that this should be part of our standard provision in the healthcare community for north Wales. There are opportunities around integrating it with existing OT and physiotherapy services. It should be part of that service and not seen as some separate entity.”³³

Both a Sbôcs Gogledd Cymru

72. Roedd ALAC Wrecsam wedi datblygu model both a sbôcs:

“The hub-and-spoke model was recommended in the Audit Commission’s documentation around 2000-01 as a positive way forward in north Wales. We have had an opportunity to consider that model in working with specific referrers, who refer a lot to the service as 'spokes' rather than to actual buildings around north Wales. Having buildings and a satellite service in north Wales is part of the current review, to see how they would potentially benefit the service. So, it would not be appropriate to make a definitive comment on that now. However, in north Wales, we have been able to take the gatekeeper concept forward to a certain degree, which is about working with individuals who refer to the service and helping them develop their knowledge and their product knowledge so that their prescriptions can be more specific. Those gatekeepers are in various parts of north Wales, and we are currently working with another four. That is helping us to look

³² Tystiolaeth Lafar, 11.2.10

³³ *ibid*

at the capacity issue around what is coming into the service, as well managing what is there.”³⁴

73. Dywedwyd wrth y Pwyllgor hefyd bod cynlluniau’n bodoli i ddatblygu gwasanaeth lloeren yng Ngogledd Orllewin Cymru, a bod gwaith wedi dechrau i hyfforddi staff i asesu defnyddwyr.

“As you know, ALAS is based in Wrexham, which is at one end of north Wales, so one of the recommendations that the team is currently considering is how to set up a unit in north-west Wales to serve the population there, which, as you are aware, is very rural. The travel costs are high, so it also makes economic sense to have a service based in north-west Wales.”³⁵

Rheoli Rhestrï Aros

74. Roedd nifer o dystion yn cwestiynu a oedd trefniadau priodol ar waith i flaenoriaethu defnyddwyr ar ôl iddynt gael eu rhoi ar restr aros. Dywedodd dystion y gallai cyflwr defnyddwyr newid tra’r oeddent yn aros, a phan fyddent yn cael cadair olwyn yn y pen draw, nad oedd yn diwallu eu hanghenion mwyach. Dywedodd Rhwydwaith Rheolwyr Ffisiotherapi GIG Cymru Gyfan:

“We have an ongoing tension between waiting time targets and meeting the standards set versus clinical priority. People who are not urgent cases become so and supersede the urgent cases in the interests of meeting waiting time targets, so there are competing interests that make service delivery models difficult.”³⁶

75. Awgrymodd ffisiotherapyddion y gallai therapyddion cymunedol gymryd rhan mewn blaenoriaethu defnyddwyr a oedd mewn perygl o waethygu:

“We need to identify the clinical impact on an individual of not being provided with a wheelchair. When does that get to a critical level? Again, it is about ensuring that we ask the right questions of the right people at the right time. We need the expertise of how that problem can be managed from ALAS, but we need the local patient knowledge and that of the local therapist. It is a decision between those two. I would not specify those at this point, but there are key trigger points for a

³⁴ Tystiolaeth Lafar, 11.2.10

³⁵ *ibid*

³⁶ Tystiolaeth Lafar, 21.1.10

risk that goes to unacceptable levels and that therefore needs to be managed now.”³⁷

76. Dywedodd ALAC Caerdydd fod ganddynt “at least one dedicated person who can respond quickly”³⁸, pan fyddai cyflwr defnyddiwr yn newid:

“We have a rapid response service, so if we have an urgent referral for someone who is deteriorating or has multiple sclerosis, or whatever, we respond immediately. So, we have an early rapid response system. Although the guide to good practice on waiting times talks about treatment on a chronological basis, we also provide a service on the basis of clinical need.”³⁹

77. Dywedodd ALAC Wrecsam eu bod yn ceisio ymateb cyn gynted â phosibl i achosion brys:

“We try to see urgent cases within a couple of weeks, but it is not always possible to do that. Sometimes we can see them in much less time, depending on the circumstances.”⁴⁰

78. Hefyd, dywedasant y gellid adolygu achos unrhyw un ar restr aros petai eu hamgylchiadau’n newid:

“They can become an urgent case if their circumstances have changed from the initial information that was given to us. So, we are very clear and open about the fact that people should get back to us if things change, and it can be reviewed.”⁴¹

79. Cadarnhaodd Clive Sparkes, Pennaeth Staff, Grŵp Rhaglenni Clinigol Cymorth Therapiau a Chlinigol, Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr, mai un rhestr aros sydd a dywedodd fod ALAC Wrecsam yn ystyried y posibilrwydd o flaenoriaethu plant:

“Part of the turnaround team’s recommendations is to look at whether children should be prioritised. Personally, I think that they should be, but the team is looking at that now and there will be a recommendation around that.”⁴²

³⁷ Tystiolaeth Lafar, 21.1.10

³⁸ Tystiolaeth Lafar, 11.2.10

³⁹ ibid

⁴⁰ ibid

⁴¹ ibid

⁴² ibid

Datrysiadau Dros Dro

80. Codwyd y posibilrwydd o ddarparu datrysiad dros dro pan ddisgwylir arosiadau hir. Dywedodd Rhwydwaith Rheolwyr Ffisiotherapi GIG Cymru Gyfan:

“Are we able to provide an individual with a best-fit piece of equipment if that particular component is not available? Then we are meeting an individual’s needs as best we can until we can complete the prescription. We know of some trial work that is going on with ALAS. A pilot piece of work is under way at Cardiff Hospital, looking at modular chairs so that they can be built up piece by piece. The two key issues with waiting times is the length of those times and the impact that they have on the individual. We need to consider whether there is a way of addressing those issues so that the time an individual waits is not as significant for their clinical deterioration.”⁴³

Safbwynt y Gweinidog

81. Dywedodd y Gweinidog y byddai cam 2 adolygiad Llywodraeth Cymru’n edrych ar brosesau rheoli rhestri aros y gwasanaeth. Dywedodd:

“Following on from phase 1 of the all-Wales posture and mobility review, I am pleased to announce plans for phase 2. It will include a review of the current waiting list management processes, which is important. My aim is to ensure that waiting times are managed effectively and that future investment leads to greater reduction in waiting times. When targets were set for the service previously, it was easy to say that we would always be able to put money in to deliver on them, but we are in a much more complex area than straightforward targets and putting money in to follow them through.”⁴⁴

82. Dywedodd Mr. Dean, Cyfarwyddwr Strategaeth a Chynllunio, yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol:

“Part of that will be to do with waiting list management processes, which is why a key part of the second phase is to work with the service to ensure that it is as effective as possible with the resource that is currently available. That will then provide information to help the Minister to make decisions

⁴³ Tystiolaeth Lafar, 21.1.10

⁴⁴ Tystiolaeth Lafar, 4.3.10

about targeting future resource increases. So, we need to work with the service. We are working with the National Leadership and Innovation Agency for Healthcare and the delivery and support units, which are experts on the process engineering side, along with colleagues in ALAS, who understand the detail of the service, to identify areas where improvements can be made to reduce that tail. In the majority of cases, people receive their wheelchairs quickly. We need to understand what the delays are in those cases that form the tail and we then need to identify those that we can address quickly. We will then provide advice to the Minister to help to guide future decisions.”⁴⁵

Safbwynt y Pwyllgor

83. Yng nghyswllt amseroedd aros, mae'r Pwyllgor yn cydnabod nad yw'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr yn wynebu arhosiad hir. Fodd bynnag, mae nifer arwyddocaol o ddefnyddwyr ag anghenion cymhleth yn dioddef oediadau, ac mae hyn yn annerbyniol. Ceir problem benodol gyda chlirio'r ôl-groniad yng Ngogledd Cymru.

84. Mae'r Pwyllgor yn teimlo, os yw unigolion yn gorfod aros am gyfnodau hir, y dylid archwilio darparu datrysiad dros dro. Efallai na fydd y datrysiad dros dro hwn yn diwallu anghenion defnyddwyr yn llawn, ond bydd yn sicrhau nad ydynt yn gaeth i'w gwelyau na'u tai, ac yn darparu rhywfaint o symudedd.

Argymhelliad

Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru archwilio, gyda'r gwasanaeth, mudiadau gwirfoddol ac elusennau, opsiynau i ddarparu'r datrysiadau dros dro gorau posibl i ddefnyddwyr a fydd yn aros am gyfnodau arwyddocaol am gyflenwi neu gynnal a chadw cadair. (Argymhelliad 10)

Adnoddau

85. Roedd llawer o dystiolaeth yr Ymchwiliad yn tynnu sylw at faterion yn ymwneud ag adnoddau fel un o'r prif rwystrau i ddarparu gwasanaethau o safon uchel. Fodd bynnag, roedd rhai tystion yn credu y gellid cael gwelliannau arwyddocaol drwy weithio'n 'glyfrach', gan gynnwys integreiddio gwasanaethau cadeiriau olwyn gyda gwasanaethau anableded eraill, defnyddio adnoddau cymunedol yn

⁴⁵ Tystiolaeth Lafar, 4.3.10

well, a chynnwys defnyddwyr gwasanaeth yn agosach mewn penderfyniadau am sut i ddiwallu eu hanghenion.

86. Dywedwyd wrth y Pwyllgor nad oedd y broses gomisiynu wedi rhoi digon o gyllid i fodloni'r safonau yn yr NSF Plant, a bod y galw ar y gwasanaeth yn cynyddu.

87. Dywedodd tystion wrth y Pwyllgor fod Comisiwn Iechyd Cymru'n dyrannu ychydig dros £4.5 miliwn i ALAS Gogledd Cymru, ond bod y gwasanaeth yn costio £6 miliwn i'w ddarparu. Dywedwyd wrthym bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar hyn o bryd yn cyfrannu rhywfaint o gyllid i lenwi'r bwlch.

88. Dywedwyd wrth y Pwyllgor bod gwasanaeth Gogledd Cymru wedi cael cyllid untro o £525,000 i leihau amseroedd aros. Fodd bynnag, roedd wedi amcangyfrif bod angen £1.8 miliwn ychwanegol i gynnal y gwelliannau yn yr amseroedd aros. Nid oedd y swm hwn yn cynnwys yr adnoddau y mae eu hangen i ddarparu adolygiadau rheolaidd.

Safbwynt y Gweinidog

89. Dywedodd y Gweinidog y byddai'n edrych ar gyllid petai adolygiad Llywodraeth Cymru'n argymhell y dylai wneud hynny. Dywedodd:

“In the current economic situation, I can understand why people are worried about what will happen to the budget. Also, chairs and seating equipment are, of course, purchased in a global market, and this makes things even more interesting in terms of what you get for the cash that you put into the system. I will therefore be making future announcements on funding when I have received the final report. Recognising the current economic crisis and the recommendations from phase 2 are important.”⁴⁶

90. Aeth y Gweinidog yn ei blaen:

“When we enter a difficult economic crisis, this is an area that you need to protect: you only have to look at the quality of life issues in relation to the provision of wheelchairs. It is one of the core areas in the NHS that you cannot consider if you have to look for any savings. I can give the commitment that I will be looking at further funding, even in a difficult settlement, according to the outcome of the report. That is, of course, if I am asked for more money.”⁴⁷

⁴⁶ Tystiolaeth Lafar, 4.3.10

⁴⁷ Tystiolaeth Lafar, 4.3.10

91. Dywedodd y Gweinidog fod angen ystyried diwygio a gwella'r gwasanaeth yn ogystal ag adnoddau. Dywedodd y Gweinidog:

"I do not doubt the sincerity of the contribution and that it thought that more money would help, but an improvement in systems, the way that the service is managed, and the way that HCW commissioned it would have helped rather than constantly going on about the financial processes. Unless we have the correct systems in place, it does not matter how much money you put into a service, it still will not work, but I will look at the resource implications if I have any recommendations to do so when the second phase of the review is completed."⁴⁸

Safbwynt y Pwyllgor

92. Yng nghyswllt adnoddau, er bod y Pwyllgor yn derbyn y gellir gwella effeithlonrwydd o ganlyniad i'r argymhellion sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn ac o ganlyniad i adolygiad Llywodraeth Cymru, rydym yn pryderu na cheir gwelliant parhaus i'r gwasanaeth heb gyllid ychwanegol. Mae'r Pwyllgor hefyd yn pryderu a fydd y ddarpariaeth o gyllid ychwanegol i'r gwasanaeth yng Ngogledd Cymru gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn gynaliadwy.

Argymhelliad

Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gynnal asesiad o anghenion adnoddau hirdymor y gwasanaeth, gan roi ystyriaeth benodol i'r adnoddau sy'n ofynnol er mwyn cynnal gwell amseroedd aros; darparu adolygiadau rheolaidd i rai defnyddwyr; a chlirio ôl-groniad y rhestr aros yng Ngogledd Cymru. Yna, dylai'r Llywodraeth roi datganiad clir sy'n amlinellu sut y mae'n bwriadu bodloni'r gofynion hyn o ran adnoddau yn y cylch cyllideb presennol. (Argymhelliad 11)

⁴⁸ Tystiolaeth Lafar, 4.3.10

5. Gweithio gydag Eraill

Cydweithio

93. Fel y nodwyd ym Mhennod 4, roedd rhai tystion yn credu y gellid cael gwelliannau sylweddol i'r gwasanaeth drwy weithio'n 'glyfrach'. Roedd yr awgrymiadau'n cynnwys integreiddio gwasanaethau cadeiriau olwyn gyda gwasanaethau anableded eraill, defnyddio adnoddau cymunedol yn well, a chynnwys defnyddwyr gwasanaeth yn agosach mewn penderfyniadau am sut i ddiwallu eu hanghenion.

94. Ystyriwyd bod cydweithio'n effeithiol yn arbennig o bwysig o ran cyflenwi model both a sbôcs.

95. Roedd nifer o dystion yn feirniadol o ddiffyg cydweithio o fewn y GIG; gyda Therapyddion Cymunedol; a gydag Elusennau a'r sector gwirfoddol.

Cydweithio o fewn y GIG

96. Dywedodd tystion wrth y Pwyllgor, ac ystyried y pwysau ar wasanaethau cadeiriau olwyn, y byddai gwella cydweithio'n golygu bod eu hadnoddau cyfyngedig yn cael eu defnyddio'n well.

97. Yn benodol, awgrymwyd y gellid archwilio trefniadau cydweithio ar gyfer gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol ac addysg. Dywedodd Mary Burrows, Prif Weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, wrth y Pwyllgor fod rhai trefniadau eisoes ar waith o ran cyfarpar, ac meddai:

“we are trying to look at how we are doing joint assessments. However, we have a long way to go on that.”⁴⁹

98. Dywedodd Jan Williams, Prif Weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, y gallai gwell cydweithio helpu i ddiwallu anghenion defnyddwyr:

“...we believe that a unified assessment and moving from a health model to a more social holistic model is the way to go. The NHS reconfiguration gives us the opportunity to do that. For example, in the Cardiff and Vale board, we will be setting up a tripartite programme board on integration, and the unified

⁴⁹ Tystiolaeth Lafar, 21.1.10

assessment arrangements, particularly for children, will be high on our agenda. So, we think that that is very much the way to go.”⁵⁰

99. Awgrymwyd y gallai cyfuno cyllidebau ar draws gwahanol wasanaethau arwain at ddefnyddio adnoddau'n fwy effeithiol a mwy o ddewis i ddefnyddwyr:

“There is also the issue of joint funding and looking at partnerships with education and health coming together, for example, to look at the wheelchair, what the person wants to use it for in school, for example, and whether there is any funding that can link with whatever is being provided clinically from a health perspective. There could be a useful coming together of funding.”⁵¹

100. Dywedodd Mary Burrows y dylid archwilio cyfleoedd i gyfuno cyllidebau fel hyn. Atseiniwyd y safbwynt hwn gan ALAC Caerdydd:

“That would be a very sensible way forward and is something that we want to investigate and progress. It makes perfect sense, as you say, to provide a riser seat for a child in order to enable them to access their whole school life; we would and do want to look at that.”⁵²

Cydweithio â Therapyddion Cymunedol

101. Roedd tystiolaeth yn dynodi yr hoffai gweithwyr therapi proffesiynol cymunedol weld mwy o weithio mewn partneriaeth â staff arbenigol gwasanaethau cadeiriau olwyn. Awgrymwyd y gallai'r gwasanaeth wneud mwy i ddefnyddio sgiliau a dealltwriaeth leol, gan gynnwys asesiadau ar y cyd a rhannu mynediad at gofnodion.

102. Dywedodd therapyddion cymunedol yn eu tystiolaeth fod angen gwella mynediad at hyfforddiant i therapyddion i fod yn atgyfeiriwyr cymeradwy i ALAS. Dywedodd y ffisiotherapyddion wrthym:

“Certainly, therapists are keen to get training. They are doing level 1 and are asking to do level 2 and then level 3. It may be that there are limited numbers of trainers in ALAS, but that is for the therapists at local level. As a therapist, you need to have this personal identification number for accreditation. You can

⁵⁰ Tystiolaeth Lafar, 21.1.10

⁵¹ *ibid*

⁵² Tystiolaeth Lafar, 11.2.10

feel confident to prescribe because you know what the situation is.”⁵³

103. Dywedodd Prif Weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a’r Fro fod adnoddau wedi ei gwneud yn anodd datblygu cydweithio â therapyddion cymunedol:

“...we would have to skill-up our community therapists to deliver a more integrated, partner-based service, and with just the one training officer, that is not possible for ALAS. That training officer covers north and south Wales, so we will never be able to train-up community therapists using that route. However, I would welcome further debate outside the committee on what could be done.”⁵⁴

104. Awgrymwyd y gellid symleiddio’r broses atgyfeirio. Awgrymodd ffisiotherapyddion y gellid datblygu system ar-lein:

“The online system would allow people to come through a system and to make choices. So, if you choose something, you cannot have those options. It would be helpful to be able to send someone down a route so that the form that is submitted is completely correct and meets all the specifications that ALAS looks for. Such a system could be useful, although I understand that data protection would be an issue.”⁵⁵

105. Aethant yn eu blaenau:

“If we best use people’s clinical input and clinical experience to inform the referrer, that reduces the demand on the ALAS therapists, which ensures that we are making the best use of them. We also felt that, although there are data protection challenges, the aspiration of using an online referral system might also enable some form of online training. Many organisations receive their mandatory training online. We could look at meeting individuals’ needs to a level through that. It is about cascading it, and making it local and accessible.”⁵⁶

Cydweithio ag Elusennau a’r Sector Gwirfoddol

106. Rhoddodd nifer o dystion dystiolaeth yn nodi bod gweithio agosach rhwng y gwasanaeth ac elusennau a’r sector gwirfoddol yn

⁵³ Tystiolaeth Lafar, 21.1.10

⁵⁴ *ibid*

⁵⁵ *ibid*

⁵⁶ *ibid*

ddymunol. Mynegodd rhai tystion eu rhwystredigaeth â chynnydd araf mentrau cydweithio.

107. Cafwyd rhywfaint o dystiolaeth bod y gwasanaeth yn ceisio gwneud mwy o gydweithio yn y maes hwn. Cadarnhaodd ALAC Caerdydd eu bod yn mynd ati'n weithgar i weithio ag elusennau a'u bod yn ddiweddar wedi cyfarfod â Whizz-Kidz i gytuno ar broses i Gymru gyfan, a chadarnhaodd ALAC Wrecsam eu bod yn ddiweddar wedi rhoi strategaeth ar waith y cytunwyd arni â'r Groes Goch Brydeinig "to look at where, if anywhere, there are gaps and how we can work together to look at them."⁵⁷

108. Rhoddodd y Gymdeithas Clefyd Niwronau Motor dystiolaeth o'r trefniadau cydweithio sydd ganddynt ag ALAS, sy'n cynnwys cysylltiadau â therapydd galwedigaethol a enwyd a threfniadau cyllido ar y cyd.

Safbwynt y Gweinidog

109. Ynglŷn â chydweithio â'r sector gwirfoddol, dywedodd y Gweinidog:

"We have a lot to learn from the voluntary sector in some of these areas and greater partnership working with it will improve the quality of life of patients."⁵⁸

110. Dywedodd:

"There is an issue for us around encouraging greater co-operation and joint funding between the wheelchair service and other services, and that includes education, as a key element in this area. The phase 2 group will be driven by a project board, supported by a wider reference group. That will have representatives from other bodies that can give advice on achieving a more holistic delivery in terms of some of the services."⁵⁹

Safbwynt y Pwyllgor

111. Mae'r Pwyllgor yn teimlo bod angen model both a sbôcs, sy'n defnyddio therapyddion cymunedol yn llawn, er mwyn i'r gwasanaeth fod yn effeithiol. Teimlwn y dylid archwilio cyfleoedd i gydweithio, ac y dylai hyn ffurfio rhan o gynllun strategol y gwasanaeth.

⁵⁷ Tystiolaeth Lafar, 11.2.10

⁵⁸ Tystiolaeth Lafar, 4.3.10

⁵⁹ ibid

112. Teimlwn hefyd fod gan elusennau a sefydliadau gwirfoddol rôl bwysig i'w chwarae o ran cyflenwi'r gwasanaeth, ac y byddent yn annog cydweithio.

Argymhelliad

Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru archwilio cyfleoedd i gydweithio rhwng ALAS a sefydliadau, elusennau, therapyddion cymunedol ac eraill, ac y dylai hyn ffurfio rhan ganolog o gynllun strategol y gwasanaeth. (Argymhelliad 12)

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n sicrhau y gwneir ymdrechion i symleiddio'r broses atgyfeirio, o bosibl drwy ddatblygu adnoddau ar-lein. (Argymhelliad 13)

Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau y ceir digon o therapyddion cymunedol sydd wedi'u hyfforddi i gynnal asesiadau Lefel 3. (Argymhelliad 14)

Cyllido ar y Cyd

113. Daeth i'r amlwg o'r dystiolaeth bod rhai unigolion yn prynu cadeiriau olwyn yn breifat, gan eu bod yn teimlo na allant gael cadair addas drwy'r GIG. Bydd unigolion eraill yn defnyddio elusennau megis Whizz-Kidz i brynu cadair olwyn gan y gallant ddarparu cadeiriau y bydd yr unigolyn (yn enwedig plant) yn hapus â hwy.

Cyllido ar y Cyd ag Elusennau

114. Dywedodd ALAC Caerdydd wrth y Pwyllgor fod y gwasanaeth yn mynd ati'n weithgar i gyllido ar y cyd ag elusennau:

“We carry out joint funding actively with charities such as Whizz-Kidz. We met it this week to agree a process on an all-Wales basis, and that was a positive meeting. We have worked with it in north and south Wales on a more separate basis. So, as I said, we fund jointly, and we have done that with other charities. Many people request riser seats, which we are not able to provide within our current budget.”⁶⁰

⁶⁰ Tystiolaeth Lafar, 11.2.10

Cyllido ar y cyd ag unigolion

115. Dywedodd tystion fod diffyg eglurder o ran trefniadau cyllido ar y cyd ag unigolion. Roedd rhai rhieni wedi ceisio gwneud trefniadau ag ALAS, ond nid oeddent wedi llwyddo.

116. Dywedodd ALAC Caerdydd nad oedd y Gweinidog am i ALAS gyllido ar y cyd ag unigolion, ond cadarnhaodd y Gweinidog nad oedd hi wedi rhoi cyngor na chyfarwyddyd o'r fath i'r gwasanaeth.

117. Gwnaeth tystion nifer o awgrymiadau ar gyfer cyllido ar y cyd ag unigolion, gan gynnwys cynlluniau "symiau atodol" a thalebau. Er na ddaeth tystiolaeth o blaid "symiau atodol" gan bob parti, awgrymwyd y gellid defnyddio dulliau o'r fath i ehangu'r dewis o gyfarpar sydd ar gael i ddefnyddwyr:

"There are a number of different options. One is a type of top-up system, where people are assessed as eligible for basic provision. However, to give them a choice, as happens in England, they are given a voucher that is of an equal value and which they can then take to an accredited supplier. As long as the chair that they buy with that voucher meets the basic needs agreed by the assessment for the provision of that voucher, they can add extra funding to it. So they can change the colour and seating and put some additional features on it. That is one way of giving a service user choice."

118. Mynegwyd pryder gan rai tystion y gallai unigolion brynu cadeiriau'n breifat nad ydynt yn diwallu eu hanghenion clinigol:

"People are currently providing equipment from personal funds that might be inappropriate, which might have a health impact, because we might have to manage the results of them being inappropriately seated, in the healthcare system. The suggestion is, therefore, perhaps about signposting as opposed to using resources, so that we can guide the clinical management of individuals, as opposed to using public spend inequitably."⁶¹

Atgyweirio a chynnal a chadw cadeiriau a ariennir gan elusennau ac unigolion

119. Dywedodd nifer o dystion fod diffyg eglurder o ran y cyfrifoldeb dros gynnal a chadw ac atgyweirio cadeiriau olwyn a brynir naill ai ar y cyd ag Elusennau neu gan unigolion y tu allan i'r GIG.

⁶¹ Tystiolaeth Lafar, 21.1.10

120. Cadarnhaodd ALAC Wrecsam, pan gâi cadeiriau eu prynu gydag elusennau, y byddai'r gwasanaeth yn gwneud gwaith cynnal a chadw ar y gadair:

“When we fund jointly with Whizz-Kidz and others, we take ownership of the equipment, and we will maintain it thereafter.”⁶²

121. Dywedodd unigolion a oedd wedi prynu cadeiriau'n breifat fod angen eglurder o ran pwy sy'n cymryd cyfrifoldeb dros atgyweiriadau a chynnal a chadw, yn ogystal â chysondeb yn y polisi. Roedd rhai defnyddwyr yn teimlo bod y GIG wedi eu gadael a'u gorfodi i wneud trefniadau preifat. Dywedodd Coleg y Therapyddion Galwedigaethol:

“If someone has a chair provided by ALAS but a cushion or some kind of adaptation that they have paid for themselves, we need some clarity on the situation. If that person has done something to the chair or bought something for it separately, should they be totally abandoned by ALAS? Is there a way of dealing more flexibly with maintenance and review support, rather than just saying, ‘Well, you have bought your own, so off you go; the whole responsibility is yours’?”⁶³

Safbwynt y Pwyllgor

122. Mae'r Pwyllgor yn teimlo bod annog cyllido ar y cyd ag elusennau a sefydliadau eraill o fudd i'r gwasanaeth a'r defnyddwyr. Rydym yn cydnabod bod defnyddwyr a sefydliadau'n teimlo bod diffyg eglurder o ran trefniadau cyllido, yn enwedig yng nghyswllt polisi'r gwasanaeth ar gyfer cyllido ar y cyd ag unigolion.

Argymhellion

Rydym yn argymell, fel mater o frys, y dylai Llywodraeth Cymru egluro a chyhoeddi'r polisiâu a'r trefniadau ar gyfer cyllido ar y cyd â sefydliadau ac unigolion. (Argymhelliad 15)

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n egluro ac yn cyhoeddi eu polisiâu a'u trefniadau ar gyfer cynnal a chadw ac atgyweirio cyfarpar a brynir gan unigolion. (Argymhelliad 16)

⁶² Tystiolaeth Lafar, 11.2.10

⁶³ Tystiolaeth Lafar, 21.1.10

Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru archwilio ymhellach y posibilrwydd o gyfuno cyllidebau sy'n bodoli eisoes, yn enwedig cyllidebau addysg, yng nghyswllt darparu cyfarpar i ddefnyddwyr. (Argymhelliad 17)

Defnydd tymor byr

123. Nid yw ALAS yn darparu cadeiriau olwyn at ddefnydd tymor byr. Darperir cadeiriau olwyn o'r fath yn bennaf gan y Groes Goch Brydeinig, a gallant ddarparu cadair olwyn o fewn tri diwrnod.

124. Mae'r Groes Goch Brydeinig yn darparu cadeiriau olwyn i'w benthyca am hyd at 12 wythnos, er bod y terfyn hwn yn cael ei dorri'n fwyfwy gan ddefnyddwyr sy'n aros am gadair olwyn safonol barhaol gan ALAS. Dywedasant wrthym:

“...45 per cent of our wheelchair loans are for what the system calls longer-term users. We believe that these are people who are in the system, who have been referred to the Artificial Limb and Appliance Service, the main provider, but who are still waiting for the item to be delivered. We plug the gap, because we can guarantee to get a wheelchair to the individual within a day, two days, or three days maximum. Then, when they get their permanent wheelchair, we get the telephone call to collect it, or somebody delivers it back to us, and we clean it and turn things around.”⁶⁴

125. Awgrymodd tystion y gallai ALAS weithio'n agosach gyda'r Groes Groch Brydeinig i ddarparu cadeiriau olwyn sylfaenol ar gyfer y tymor byr tra bo asesiadau'n pennu a oes angen datrysiad mwy hirdymor. Dywedodd y Groes Groch Brydeinig:

“It is our long-held belief that, if you were to do away with these labels and make a service available—I have plucked the figure of 12 weeks; it might be 10 or 15 weeks—and say, right across the board, that anybody who needs a standard wheelchair can have one loaned to them by the British Red Cross and, what is more, they can get it within three working days, that would allow the system 10 or 12 weeks, or whatever periodicity is used, for the professionals to talk to one another. They could do the assessments or the reassessments and say, 'Yes, person a does need a permanent wheelchair'. So, rather than having a three-week target, as ALAS has, the system would

⁶⁴ Tystiolaeth Lafar, 2.12.09

